# Y cymorth iawn, ar yr adeg iawn, yn y ffordd iawn: cydweithio i leihau hunanladdiad a hunan-niwed

Strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed
Caerdydd a Bro Morgannwg, 2021-24

**Cynllun Gweithredu**

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

GIG CYMRU
NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

| | | Gweithredu wedi ei gynllunio | Mesur canlyniad | Arwain | Graddfa Amser |
|---|---|---|---|---|---|
| **1. Pob gwasanaeth ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg yn gweithio'n deg, yn gynhwysol ac yn dosturiol gyda phawb sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niwed ac wedi eu heffeithio gan hyn** | | | | | |
| Gall gwasanaethau sydd yn cefnogi'r rheiny sydd fwyaf mewn perygl fodloni anghenion poblogaeth amrywiol Caerdydd a Bro Morgannwg | 1.1 | Aelod-sefydliadau'r Grŵp Llywio i ymrwymo i adolygu a gweithredu hyfforddiant amrywiaeth ac iechyd meddwl priodol yn eu sefydliadau. (Diverse Cymru i gynghori'r Grŵp Llywio ar hyfforddiant priodol sydd ar gael) | Ymrwymiadau ac adroddiad o archwiliad a gofnodwyd gan y Grŵp Llywio ar gyfer yr holl sefydliadau sy'n mynychu'r Grŵp Llywio. | Aelodau o'r Grŵp Llywio<br><br>Suzanne Duval, Diverse Cymru | Blwyddyn 1, 2021-22<br><br>Chwarterol |
| Cynorthwyir gwasanaethau yn cefnogi cymunedau amrywiol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i fynd i'r afael ac atal hunanladdiad a hunan-niwed ymysg y rheiny y maent yn gweithio gyda nhw | 1.2 | Diverse Cymru, gyda chymorth gan y Cydlynydd Rhanbarthol, i ymgysylltu â sefydliadau sydd yn cynorthwyo cymunedau amrywiol i gael eu hymrwymiad i weithredu hyfforddiant ar hunanladdiad a hunan-niwed yn unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol gyda chymorth gan y Cydlynydd Rhanbarthol | Nifer o sefydliadau wedi eu rhestru ar www.eyst.org.uk wedi eu cofnodi i fod yn cael mynediad at hyfforddiant a nodir yn y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol | Suzanne Duval, Diverse Cymru<br><br>Ceri Fowler, Cydlynydd Rhanbarthol | Blwyddyn 2, 2022-23<br><br>I'w gadarnhau yn dilyn cyhoeddi'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol |
| Mae'r rheiny sydd yn cael mynediad at adrannau brys oherwydd hunan-niwed neu ymgais i gyflawni hunanladdiad yn cael cymorth priodol a thosturiol | 1.3 | Bwrdd Clinigol Meddygaeth i gefnogi staff mewn Adrannau Brys i dderbyn hyfforddiant ar gymorth tosturiol ac effeithiol ar gyfer y rheiny sydd yn mynychu yn dilyn digwyddiad o hunan-niwed neu ymgais i gyflawni hunanladdiad, fel yr amlinellir yn y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol pan mae ar gael, gyda chymorth gan y Cydlynydd Rhanbarthol | Nifer o staff yn gweithio mewn Adrannau Brys yn derbyn hyfforddiant a nodir yn y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol | Cath Morris, Cyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt<br><br>Ceri Fowler, Cydlynydd Rhanbarthol | Blwyddyn 2, 2022-23<br><br>*I'w gadarnhau yn dilyn cyhoeddi'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol*<br><br>*Diweddariadau chwarterol* |
| Cynyddu'r ystod o ddeunyddiau sydd ar gael i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niwed | 1.4 | Oasis i ddarparu rhestr o ieithoedd a siaredir fel arfer gan y ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches y maent yn eu cefnogi<br><br>Sefydliadau'r Grŵp Llywio i nodi adnoddau ar hunanladdiad a hunan-niwed yn yr ieithoedd hynny a ddarperir gan Oasis | Rhestr o'r ieithoedd y gwnaed cais amdanynt<br><br>Rhestr o'r deunyddiau sydd ar gael | Reynette Roberts, Oasis<br><br>Sefydliadau'r Grŵp Llywio | Blwyddyn 1, 2021-22 |
| **2. Pob gwasanaeth yng Nghaerdydd a'r Fro yn gweithio'n gydweithredol gyda gwasanaethau eraill, yn arbennig wrth bontio rhwng gwasanaethau** | | | | | |
| Mae arfer gorau ar atal hunanladdiad a hunan-niwed yn cael ei ymgorffori i wasanaethau sydd yn cefnogi'r rheiny sydd yn pontio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion | 2.1 | Y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl a'r Bwrdd Clinigol Plant a Menywod i rannu cynlluniau gyda'r Grŵp Llywio ar gyfer gwella'r pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion fel yr amlinellir yn y strategaethau perthnasol yn cynnwys IMTP<br><br>Grŵp Llywio i nodi cyfleoedd i gynnwys arfer gorau mewn perthynas ag atal hunanladdiad a hunan-niwed<br><br>Byrddau Clinigol i ddisgrifio sut bydd y rhain yn cael eu hymgorffori i gynllunio a gwasanaethau | Cynlluniau a ddarperir i'r Grŵp Llywio gan Fyrddau Clinigol a chadarnhad o weithredoedd penodol i fynd i'r afael â'r mater hwn<br><br>Cyfleoedd ac arfer gorau'n cael eu cydgrynhoi a'u darparu i'r Byrddau Clinigol<br><br>Byrddau Clinigol yn ymateb i sylwadau'r Grŵp Llywio | Ceri Lovell, CVUHB CAMHS<br><br>Dan Crossland<br><br>Tara Robinson<br><br>CVUHB MHCB | Blwyddyn 1, 2021-22<br><br>*I'w gadarnhau yn dibynnu ar ddatblygiad MHCB IMTP* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gan wasanaethau sydd yn cefnogi'r rheiny â risg a nodir o hunanladdiad a hunan-niwed wybodaeth gyfredol a pherthnasol am y peryglon hynny | 2.2 | Y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl i rannu cynlluniau gyda'r Grŵp Llywio ar gyfer gwella rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill sydd yn darparu cymorth iechyd meddwl i'r rheiny sydd â hanes wedi ei nodi neu sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niwed (e.e. gwasanaeth carchardai)<br><br>Grŵp Llywio i nodi cyfleoedd i wella rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau a nodir<br><br>Bwrdd Clinigol i ddisgrifio'r ffordd y gellir ymgorffori gwelliant i gynllunio a gwasanaethau | Cynlluniau'n cael eu rhoi i'r Grŵp Llywio gan y Bwrdd Clinigol a chadarnhad o weithredoedd penodol i fynd i'r afael â'r mater hwn<br><br>Cyfleoedd ac arfer gorau'n cael eu cydgrynhoi a'u darparu i'r Bwrdd Clinigol<br><br>Y Bwrdd Clinigol yn ymateb i sylwadau'r Grŵp Llywio | Mark Warren, MHCB | Blwyddyn 1, 2021-22<br><br>*I'w gadarnhau yn dibynnu ar ddatblygiad MHCB IMTP* |
| Darparu cyrhaeddiad a darparu cymorth priodol i boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg mewn addysg bellach ac uwch | 2.3 | Cyflwyno a gwerthuso peilot i gefnogi myfyrwyr sydd angen atgyfeiriad ac asesiad gan ymarferwyr iechyd meddwl y GIG erbyn Rhagfyr 2022. | Gwerthusiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Llywio Hunanladdiad a Hunan-niwed | Dan Crossland, MHCB,<br><br>Bethan Allender | Rhag 2022 |
| **3. Bod y rheiny sydd yn cefnogi ac yn gweithio gyda phobl allai fod mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niwed yn gallu adnabod y rheiny sydd mewn perygl, ymgysylltu â nhw'n adeiladol a'u cyfeirio neu eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth iawn ar yr adeg iawn** | | | | | |
| Mae'r rheiny sydd yn gweithio mewn gofal sylfaenol yn cael eu cynorthwyo i ddilyn arfer gorau a hyfforddiant yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niwed, ar gyfer y rheiny sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niwed a'r rheiny sydd wedi cael profedigaeth trwy hunanladdiad | 3.1 | Y Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chyfryngol i weithredu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol a'r llwybr profedigaeth mewn gofal sylfaenol, gyda chymorth gan y Cydlynydd Rhanbarthol | Ffigurau hyfforddiant chwarterol ar hyfforddiant atal hunanladdiad a hunan-niwed yn cael eu darparu i'r Grŵp Llywio | Carol Preece, Nyrs Arwain, Ardal De a Dwyrain Caerdydd<br><br>Ceri Fowler, Cydlynydd Rhanbarthol | Blwyddyn 2: 2022-23<br><br>*I'w gadarnhau yn dilyn cyhoeddi Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol* |
| Cynorthwyo'r rheiny â risg uchel o / sydd yn weithredol yn ystyried hunanladdiad a hunan-niwed i gael cymorth trwy wasanaethau mynediad agored priodol | 3.2 | Y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl i adolygu dichonoldeb caffi(s) argyfwng yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i wneud darpariaeth mynediad agored ar gael i'r rheiny sydd yn ystyried neu mewn perygl o hunanladdiad | Adrodd ar ddichonoldeb wedi ei gwblhau a'u gyflwyno i'r Grŵp Llywio | Julian Willets, MHCB | Blwyddyn 2: 2022-23<br><br>*I'w gadarnhau yn dibynnu ar ddatblygiad MHCB IMTP* |
| Mae'r rheiny sydd wedi cael profedigaeth trwy hunanladdiad yn cael eu cefnogi gyda chyngor priodol ac effeithiol | 3.3 | Ap a llyfryn Cymorth wrth Law diwygiedig i gael ei weithredu'n lleol | Dosbarthiad ac ymgymeriad chwarterol HiaH i gael ei adrodd i'r Grŵp Llywio gan y sefydliadau sydd yn mynychu | Sefydliadau'r Grŵp Llywio | Yn aros am fanylion gan NAG ar ailddrafftio HiaH a datblygiad yr ap |
| Mae'r rheiny sydd wedi cael profedigaeth trwy hunanladdiad yn cael eu cefnogi'n barhaus gyda chyngor priodol ac effeithiol | 3.4 | Aelodau'r Grŵp Llywio i ledaenu'r Llwybr Profedigaeth Cenedlaethol o fewn eu sefydliadau | Mabwysiadu'r llwybr yn ffurfiol gan aelodau'r Grŵp Llywio yn cael ei gadarnhau/ddiweddaru'n chwarterol i'r Grŵp Llywio | Aelodau'r Grŵp Llywio | Blwyddyn 2: 2022-23<br><br>*I'w gadarnhau pan fydd y Llwybr Profedigaeth Cenedlaethol ar gael* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gwybodaeth ddiweddar am wasanaethau sydd yn rhoi cymorth mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niwed ar gael ac wedi ei diweddaru | 3.5 | CAVAMH i ychwanegu deunydd ar wasanaethau sydd yn mynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niwed i wefan Dewis lle nodir hynny gan aelodau'r Grŵp | Cofnod o geisiadau i CAVAMH ar gyfer diweddariadau i wefan Dewis | Grŵp Llywio / Caroline Fellows, CAVAMH | *Parhaus* |
| Sicrhau bod y rheiny sydd yn gweithio mewn gwasanaethau ar gyfer y rheiny â phroblemau cyffuriau ac alcohol yn cael cymorth i ymgysylltu'n effeithiol â'r rheiny sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niwed | 3.6 | Tîm Cymorth Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro gyda chymorth gan y Cydlynydd Rhanbarthol i weithredu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghaerdydd a'r Fro, gyda chymorth gan y Cydlynydd Rhanbarthol | Ystadegau chwarterol ar ymgymeriad hyfforddiant gan wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghaerdydd a'r Fro | Tîm cymorth bwrdd cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro<br><br>Ceri Fowler, Cydlynydd Rhanbarthol | *Blwyddyn 2: 2022-23*<br><br>*I'w gadarnhau yn dilyn cyhoeddi Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol* |
| Cynorthwyir ysgolion i weithredu ymagweddau 'ysgol gyfan' effeithiol tuag at hunanladdiad a hunan-niwed fel rhan o weithredu canllawiau statudol 'Ymagwedd Ysgol Gyfan tuag at lesiant emosiynol a meddyliol' | 3.7 | Arweinwyr Ysgolion Iach, yn gweithio gyda chydlynwyr Ysgolion Iach mewn ysgolion, cynorthwyo'r gwaith o weithredu canllawiau Addysg Cymru 'Ymateb i faterion huan-niwed a meddyliau am hunanladdiad ymysg pobl ifanc' (e.e. trwy ganllawiau i ysgolion ar gwblhau offeryn asesu) a'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol pan fydd ar gael, gyda chymorth y Cydlynydd Rhanbarthol | Arweinwyr Ysgolion Iach i roi manylion ystadegau penodol/ astudiaethau achos i'r Grŵp Llywio<br><br>*Noder wrth i weithredu'r Ymagweddau Ysgol Gyfan ddatblygu, gellir diffinio mesurau ac adborth penodol* | Arweinwyr Ysgolion Iach<br><br>Ceri Fowler, Cydlynydd Rhanbarthol / Grŵp Llywio | Cyflwyniad Blynyddol NTF o Flwyddyn 2: 2022-23 |
| Mae grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn cael eu cynorthwyo i adnabod a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niwed | 3.8 | GVS a C3SC yn rhannu canllaw Addysg Cymru 'Ymateb i faterion hunan-niwed a meddyliau am hunanladdiad ymysg pobl ifanc' ar draws rhwydweithiau priodol o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol | Canllaw wedi ei rannu | Lani Tucker, GVS<br><br>Duncan Innes, C3SC<br><br>Linda Newton, CAVAMH | Blwyddyn 1: 2021-22 |
| Mae gweithlu BIP Caerdydd a'r Fro yn cael eu cefnogi'n effeithiol os ydynt yn cael problemau yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niwed | 3.9 | Tîm arweinyddiaeth gweithlu CVUHB i sicrhau bod hyfforddiant ac adnoddau priodol gan y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol a bod y llwybr profedigaeth ar gael i staff iechyd galwedigaethol a staff eraill sydd yn cefnogi gweithlu CVUHB | Llawer o staff yn y grwpiau proffesiwn hyn yn gwneud hyfforddiant a nodir yn y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol<br><br>Llwybr profedigaeth yn cael ei rannu gyda'r grwpiau proffesiynol hyn trwy lwybrau hyfforddiant a datblygiad arferol | Claire Whiles, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol, CVUHB<br><br>Ceri Fowler, Cydlynydd Rhanbarthol | Blwyddyn 2, 2022-23<br><br>*I'w gadarnhau yn dilyn cyhoeddi'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol a'r llwybr profedigaeth*<br><br>*Diweddariadau chwarterol* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio tuag at wybodaeth a chyngor o ansawdd uchel ar hunanladdiad a hunan-niwed ar y rhyngrwyd<br><br>Mae'r rheiny mewn gwasanaethau statudol ac anstatudol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn ymwybodol o'r pwynt mynediad unigol (SPOA) ar gyfer iechyd a llesiant emosiynol ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol | 3.10 | Mae pecyn briffio ar y pwynt mynediad unigol rhanbarthol a'r wefan a'u perthnasedd i gefnogi'r rheiny â phroblemau yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niwed yn cael ei ddatblygu a'i rannu gyda:<br><br>(1) phartneriaid yng Ngrŵp Llywio Caerdydd a Bro Morgannwg<br><br>(2) cysylltiadau mewn Byrddau Clinigol yn cael eu nodi yn y Cynllun Gweithredu yma i weithredu'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol<br><br>Cyflwyniad yr yr SPOA a'r wefan i'r Grŵp Llywio, a rhannu'r pecyn briffio a rhannu'r cysylltiadau o'r Byrddau Clinigol a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu hwn<br><br>Mesurau defnyddio SPOA a'r wefan i gael eu hadrodd i'r Grŵp Llywio bob chwarter | Pecyn briffio wedi ei ddatblygu a'i gyflwyno yn y Grŵp Llywio a'i rannu gyda chysylltiadau o'r Bwrdd Clinigol a nodir yn y Cynllun Gweithredu<br><br>I gadarnhau bod y pecyn wedi ei rannu gydag arweinwyr/phartneriaid trydydd sector<br><br>Ymweliadau gwefan<br><br>Defnyddio'r SPOA (niferoedd sydd yn cael mynediad at ac yn cyflwyno gyda phroblemau'n ymwneud â SSH, mesurau eraill yn cael eu datblygu) | Holly Tarren, Rheolwr Prosiect, Gwasanaethau Iechyd Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd<br><br>Suzanne Wood, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd | HT i gyflwyno i'r Grŵp Llywio a phecyn Briffio i fod ar gael ar gyfer cyfarfod Ch3 2021-22<br><br>Rhannu pecyn ymlaen yn dilyn briff SSH, Ch3 2021-22<br><br>Defnydd o'r wefan/SPOA wedi ei nodi i'r Grŵp Llywio yn chwarterol |
| Those working in children's services in statutory agencies to follow best practice and training around suicide and self harm, for those at risk of suicide and self harm and those bereaved by suicide | 3.11 | Cardiff and Vale of Glamorgan Children and Young Peoples' Emotional Health and Wellbeing Group to implement National Training Framework and bereavement pathway within primary care, supported by Regional Co-ordinator | Quarterly training figures on suicide and self-harm prevention training in primary care provided to Steering Group | Jennifer Horton, Improvement and Development Manager, Starting Well Partnership<br><br>Ceri Fowler, Regional Co-ordinator | Year 2: 2022-23<br><br>TBC following publication of National Training Framework |
| Mae'r rheiny sydd mewn perygl yn ymwybodol o argaeledd cyngor a chymorth iechyd meddwl trwy 111 | 3.12 | Rhagwelir cyflwyno opsiwn yng ngwasanaeth 111 i bwyso 2 ar gyfer y rheiny sydd mewn argyfwng iechyd meddwl ar gyfer 2022-23. Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl i gysylltu â Grŵp Strategaeth SSH a'r Cydlynydd Rhanbarthol i gynyddu gwelededd ar draws partneriaid SSH ac adrodd ar ymgymeriad y gwasanaeth. Ffigurau ar y rheiny sydd yn nodi meddyliau am hunanladdiad a hunan-niwed i gael eu casglu a'u rhannu gyda'r Grŵp Llywio | Cynlluniau cyfathrebu ar gyfer cyflwyno gwasanaeth wedi ei rannu gyda Grŵp Llywio SSH<br><br>Ffigurau defnydd o wasanaeth yn cael eu rhannu gyda'r Grŵp Llywio yn cynnwys y rheiny sydd yn nodi hunanladdiad a hunan-niwed | Julian Willett a Daniel Marsh, Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl | Cynlluniau cyfathrebu'n cael eu cyflwyno i Grŵp Llywio SSH pan maent ar gael, 2022-23<br><br>Ffigurau ar gyfer defnydd o wasanaeth yn cael eu cyflwyno bob chwarter |
| Mae gan staff y GIG y sgiliau i gynorthwyo'r rheiny sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niwed i ddatblygu cynlluniau uniongyrchol i leddfu risg | 3.13 | Staff yn arwain ac yn treialu a gwerthuso deunyddiau hyfforddiant Cysylltu â Phobl, yn cynnwys offeryn SAFE, sydd yn galluogi'r holl staff iechyd i gynorthwyo pobl i ysgrifennu cynllun diogelwch personol, ac yn rhoi'r offer i staff iechyd meddwl i gydgynhyrchu cynllun lleddfu hunanladdiad sydd yn nodi ffactorau risg a gweithredoedd lleddfu yn rhannu gwerthusiad o'r gwaith hwn ac yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â datblygiad a gweithredu deunyddiau hyfforddiant cenedlaethol fel rhan o'r cynllun gweithredu ehangach. | Gwerthuso peilot a rannwyd gyda'r grŵp Llywio<br><br>Ymgymeriad o'r offeryn SAFE os caiff ei gyflwyno'n fwy eang<br><br>Elfennau o'r offeryn SAFE sydd yn berthnasol yn cael ei ymgorffori'n ehangach i'r gwaith o gyflwyno fframwaith hyfforddiant cenedlaethol yng Nghaerdydd a'r Fro gydag arweinwyr gweithredu yn cael eu nodi yn y cynllun gweithredu, os caiff ei gyflwyno'n fwy eang | Ceri Fowler Cydlynydd Rhanbarthol<br><br>Jayne Bell, Miranda Barber, Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl | Rhannu gwerthuso Ch3 Blwyddyn 1, 2021-22<br><br>Elfennau eraill i gael eu cadarnhau os bydd cyflwyno ehangach yn cael ei gytuno |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **4. Gwybodaeth leol berthnasol a'r hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau penodol yn cael eu cydgrynhoi, eu rhannu a'u gweithredu'n gyflym ac yn effeithiol** | | | | | |
| Mae gwasanaethau lleol yn gallu ymateb i faterion lleol sydd yn gallu cynyddu'r perygl o hunanladdiad a hunan-niwed, yn gyflym ac yn effeithiol | 4.1 | Datblygu a gweithredu protocolau ar gyfer rhannu 'gwersi a ddysgwyd' trwy baneli adolygu cyflym gyda'r Grŵp Llywio ac i gyflwyno'r rhain yn chwarterol | Grŵp Llywio i dderbyn protocolau ar gyfer adolygu digwyddiadau os ydynt ar gael<br><br>Cyflwyniad chwarterol o'r 'gwersi a ddysgwyd' | Ceri Fowler, Cydlynydd Rhanbarthol<br><br>Suzanne Wood, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd | *Blwyddyn 2: 2022-23*<br><br>*Yna'n chwarterol*<br><br>*I'w gadarnhau, yn dilyn sefydlu grŵp adolygu cyflym lleol* |
| **5. Y rheiny sydd mewn perygl neu wedi eu heffeithio gan hunanladdiad a hunan-niwed a'r rheiny sydd yn gofalu amdanynt yn cael eu hymgysylltu a'u grymuso i weithio tuag at eu diogelwch a'u hadferiad eu hunain** | | | | | |
| Mae unigolion sydd wedi eu heffeithio gan faterion yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niwed yn cael eu grymuso i ddatblygu eu gwybodaeth a'u gallu i ddylanwadu ar waith lleol ar hunanladdiad a hunan-niwed o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr | 5.1 | Coleg Adferiad a Llesiant i ddarparu manylion o'r cwricwlwm presennol ac aelod-sefydliadau'r Grŵp Llywio i raeadru manylion o'r Coleg Adferiad o fewn sefydliadau a thu hwnt | Rhannu manylion y Coleg Adferiad a chyfleoedd i gyfeirio'n cael eu cofnodi gan y sefydliad yng nghofnodion y Grŵp Llywio<br><br>Nifer y cyfranogwyr sydd yn ymuno â'r Coleg Adferiad – yn chwarterol | Hannah Morland-Jones,<br><br>Coleg Adferiad | *Ch3, Blwyddyn 1, 2021-22* |
| **6. Peryglon sydd yn gysylltiedig â safleoedd a ddefnyddir yn gyson yn cael eu dileu neu eu lleihau cyhyd â phosibl** | | | | | |
| Mae'r hyn a ddysgir a gweithredoedd o ddigwyddiadau sydd yn gysylltiedig â safleoedd cyson yn cael eu rhannu gyda gwasanaeth lleol | 6.1 | Y Samariaid a Phartneriaeth Network Rail i barhau i ddiweddaru unrhyw safleoedd cyson/datblygiadau yn chwarterol.<br><br>Grŵp Llywio i ymateb i unrhyw safleoedd cyson mewn partneriaeth | Safleoedd cyson yn cael eu nodi a'u monitro a mesurau lleddfu'n cael eu sefydlu a gweithredoedd lleddfu'n cael eu cofnodi | Jules Twells / Emily Coughlin, Y Samariaid a Phartneriaeth Network Rail | Chwarterol parhaus |
| **7. Materion yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niwed yn cael eu hamlygu ar draws Caerdydd a'r Fro mewn ffyrdd sydd yn adeiladol ac yn chwalu stigma** | | | | | |
| Stigma'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niwed yn cael ei leihau mewn gweithleoedd | 7.1 | Amser i Newid Cymru a Chymru Iach ar Waith i annog cyflogwyr i ymuno â'r addewid'Amser i Newid' | Nifer o sefydliadau wedi ymuno â'r addewid | Lowri Wyn-Jones, TTCW | *Chwarterol* |
| Cynrychioliadau amhriodol yn y cyfryngau o hunanladdiad a hunan-niwed yn cael eu herio yn adeiladol ac yn barhaus | 7.2 | Grŵp Llywio i hysbysu a chysylltu â'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ynghylch achosion o gynrychioliadau amhriodol yn y cyfryngau o hunanladdiad neu hunan-niwed, neu faterion eraill yn y cyfryngau | Achosion o adrodd a gweithredoedd amhriodol yn cael eu cyfeirio at NAG | Grŵp Llywio | *Pan fydd achosion o adrodd gwael yn cael eu nodi i'r Grŵp Llywio* |
| Mae'r Strategaeth yn cael ei chyfathrebu i'r rhanddeiliaid yn effeithiol, gan ddilyn egwyddorion cydgynhyrchu | 7.3 | Cynllun cyfathrebu ar gyfer strategaeth i gael ei ddatblygu gan ddefnyddwyr y gwasanaeth gyda chymorth gan y Grŵp Llywio i hybu ymwybyddiaeth a pherchnogaeth ar draws gwasanaethau a phoblogaeth Caerdydd a'r Fro | Cynllun cyfathrebu wedi ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r Grŵp Llywio | Linda Newton, CAVAMH / Grŵp Llywio | *Ch3, Blwyddyn 1, 2021-22* |